# Dotiau



Edrychwch ar y llun yma - ydych chi'n gallu gweld y dotiau?



Amser maith yn ôl, roedd pobl Awstralia'n gwneud lluniau ar y llawr. Roedden nhw'n defnyddio hadau, tywod, cerrig bach a dail i wneud y lluniau. Roedd storïau yn y lluniau - storïau am y bobl ac am yr anifeiliaid.

Yna, dechreuodd y bobl wneud paent - o gerrig bach a hadau a dŵr.
Nawr, roedden nhw'n gallu defnyddio paent i wneud lluniau. Roedden nhw'n defnyddio ffyn i wneud dotiau bach o baent ar y llawr.

Heddiw, maen nhw'n defnyddio paent a brwshis i wneud lluniau o ddotiau. Maen nhw'n hyfryd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| y llawr | the floor, the ground | dail | leaves |
| defnyddio | to use | dechreuodd | began, started |
| hadau | seeds | roedden nhw'n gallu ... | they could ... |
| tywod | sand | ffyn | sticks |
| cerrig bach | small stones | | |